


Dysgu ar-lein



A dyma ni bellach wedi cael cadarnhad mae dysgu ar-lein fydd ein 'normal newydd' am yr wythnosau nesaf. Diolchwn i chi yn gyntaf am eich cefnogaeth barhaus wrth i ni addysgu ar-lein.

Rydym yn ymwybodol bod y cyfnod hwn yn heriol ac yn rhwystredig iawn i nifer o'n disgyblion a'u teuluoedd. Cofiwch gysylltu gyda'r ysgol yn y ffyrdd arferol os hoffech drafod unrhyw bryder neu broblem.

Gwersi ar-lein

Er gwaethaf y ffaith ein bod yn ymglyfarwyddo mwy a mwy gyda dysgu ar-lein mae'r dulliau a'r prosesau yn parhau'n newydd iawn i staff a disgyblion. Rydym felly yn cydnabod bod ein cynlluniau yn esblygu ac yn datblygu'n gyson ond rydym yn awyddus iawn i sicrhau bod hynny'n digwydd mewn ffordd bwyllog a synhwyrol.

Cyhoeddodd y Llywodraeth ganllawiau newydd yn ystod wythnos gyntaf Ionawr ac felly rydym wedi bod yn cynllunio'n strategol ar gyfer beth sydd yn addas i'n cyd-destun ni yng Ngwent Is Coed. Gobeithiwn bod y fideo ar wefan yr ysgol yn ateb nifer o'ch cwestiynau am ddysgu ar-lein: <http://www.gwentiscoed.cymru/dysgu-ar-lein-online-learning.htm>

O ran gwersi neu sesiynau byw dros Google Meets mae'n bwysig i holl rieni a dysgwyr ddarllen a thrafod y cytundeb Google Meets sydd ar wefan yr ysgol:

<http://www.gwentiscoed.cymru/cytundeb-google-meets-google-meets-contract.html>

Bydd pob dosbarth cofrestru yn cael sesiwn byw Google Meets yr wythnos hon.

Gobeithiwn bod y tudalennau newydd ar wefan yr ysgol yn gymorth wrth i ddysgwyr weithio o adref. Gallwch weld llwyth o fideos sydd yn rhoi cyfarwyddiadau sut i wneud gwahanol bethau ar Google Classroom i rieni a dysgwyr:

<http://www.gwentiscoed.cymru/sut-ydw-i-how-do-i.html>

TECHNOLEG

Rydym yn gobeithio bod gan bob dysgwr bellach fynediad i'r dechnoleg a'r wifi sydd angen arnynt i allu ymgymryd gyda'u gwersi ar-lein. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, bod hyn yn parhau'n her i nifer o deuluoedd gyda phlant yn rhannu offer ac felly'n gorfod addasu eu hamserlen ysgol.

Cysylltwch gydag Arweinydd Lles a Chynnydd eich plentyn os oes problem o ran technoleg nad ydym yn gwybod amdano'n barod.



Lles a Chynnydd

Dyma fanylion yr Arweinyddion Lles a Chynnydd:

Blwyddyn 7: geraint.davies@gwentiscoed.cymru, alis.lewis@gwentiscoed.cymru (7 Teyrnnon)

Blwyddyn 8: anys.jones@gwentiscoed.cymru

Blwyddyn 9: owen.morse@gwentiscoed.cymru

Blwyddyn 10: myfyr.aptomos@gwentiscoed.cymru

Blwyddyn 11: sian.jenkins@gwentiscoed.cymru

Uwch Arweinydd Lles a Chynnydd yr ysgol: jennifer.browne@gwentiscoed.cymru

Diolch yn fawr